Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Rhosnesni
# Rhosnesni Lane
# Wrecsam
# LL13 9ET

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/06/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 16 oed yw Ysgol Uwchradd Rhosnesni, ac mae'n cael ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r ysgol yn nwyrain Wrecsam ac mae'n derbyn disgyblion o saith o ysgolion cynradd sy'n ei bwydo. Mae nifer y disgyblion wedi gostwng o 1,150 adeg yr arolygiad diwethaf i 980.

Mae tua 24% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%. Mae tua 23.7% o ddisgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol yn dod o'r ystod lawn o gefndiroedd economaidd gymdeithasol ac yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae gan ryw 16% ohonynt angen addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18.6%. Mae'r ysgol wedi trefnu darpariaeth i ddisgyblion ag anawsterau dysgu penodol a chymedrol ac mae gan ryw 4% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r cyfartaledd o 2.6% ar gyfer Cymru gyfan.

Mae tua 60 yn fwy o fechgyn na merched yn yr ysgol. Mae tua 11% o ddisgyblion yn cael cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol, a daw tua 7% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Nid oes yr un disgybl yn siarad Cymraeg fel mamiaith nac i safon gyfatebol.

Dechreuodd y pennaeth newydd ar ei swydd ym Medi 2008 a dechreuodd dirprwy bennaeth newydd ym Medi 2011.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Rhosnesni yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,527 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Wrecsam yw £4,871 a'r isafswm yw £4,182. Mae Ysgol Uwchradd Rhosnesni yn bumed o'r naw ysgol uwchradd yn Wrecsam o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

## Perfformiad presennol

Bernir bod perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- bod gormod o enghreifftiau o ymddygiad gwael ar draws yr ysgol a gwaharddiadau cyfnod penodol yn rhy uchel;
- mae diffygion pwysig mewn llawer o wersi ac nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd;
- bod perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 3 mewn llawer o ddangosyddion islaw perfformiad ysgolion tebyg;
- bod perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 mewn dangosyddion sy'n cynnwys y pynciau craidd islaw perfformiad ysgolion tebyg;
- bod perfformiad bechgyn ar draws yr ysgol mewn dangosyddion sy'n cynnwys y pynciau craidd islaw perfformiad ysgolion tebyg;
- bod safonau llythrennedd ar draws yr ysgol yn wael ar y cyfan;
- nid yw bron i ddwy ran o dair o'r addysgu yn ddigon da; ac
- yn ystod wythnos yr arolygiad, roedd presenoldeb a phrydlondeb ddim yn digon da.

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- bod cynnydd wrth wella safonau a chynnydd mewn gwersi yn rhy araf;
- bod strategaethau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael yn aneffeithiol ar y cyfan;
- bod gormod o amrywiad yn ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth ar lefel uwch a lefel ganol;
- nad yw ansawdd hunanarfarnu ysgol gyfan ac adrannol yn drylwyr nac yn gyson wrth nodi meysydd pwysig i'w gwella;
- nid oes gan y corff llywodraethol wybodaeth gadarn am yr heriau sy'n wynebu'r ysgol; ac
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd cynaliadwy wrth fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r adroddiad arolygu diwethaf.

## Argymhellion

A1 Gwella perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a bechgyn ar draws yr ysgol

A2 Gwella safonau llythrennedd a dwyieithrwydd ar draws yr ysgol

A3 Gwella ymddygiad ar draws yr ysgol, mynd i'r afael â bwlio yn fwy effeithiol a lleihau cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol

A4 Gwella cyfraddau presenoldeb a phrydlondeb

A5 Gwella ansawdd addysgu, dysgu ac effeithiolrwydd asesu ar draws yr ysgol

A6 Gwella atebolrwydd staff ar draws yr ysgol trwy brosesau rheoli llinell trylwyr a chlir ac arfarnu ei effaith ar safonau, ymddygiad a lles disgyblion

A7 Sicrhau bod uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldeb am wella ansawdd addysgu, dysgu ac asesu

A8 Sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad yn effeithiol wrth wella safonau, ansawdd addysgu a dysgu, ac ymddygiad ar draws yr ysgol

A9 Sicrhau bod ethos a diwylliant mwy cadarnhaol ar draws yr ysgol i gefnogi dysgu a gwella ymddygiad

A10 Datblygu rôl y corff llywodraethol i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth well o berfformiad yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas â safonau ac ymddygiad.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Er gwaethaf gwelliannau mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu mewn gwersi. Yn ychwanegol, mae bechgyn a disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd arbennig o wael.

Yng nghyfnod allweddol 3 dros y tair blynedd diwethaf, bu tystiolaeth o welliant mewn perfformiad. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn llawer o ddangosyddion yn parhau i fod islaw perfformiad ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 3 yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud bron hanner cystal â disgyblion nad oes ganddynt hawl i'w cael. Mae gwahaniaeth mawr rhwng perfformiad merched a bechgyn hefyd yn enwedig yn y dangosydd sy'n cynnwys y pynciau craidd wedi'u cyfuno, gyda bechgyn yn tanberfformio, o gymharu â bechgyn mewn ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, bu gwelliant ym mherfformiad cyffredinol disgyblion ym mhob dangosydd allweddol yn 2012 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda pherfformiad yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad ym mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth yn unigol hefyd wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn 2012. Fodd bynnag, er hynny, mae perfformiad yn Saesneg ar lefel 2 wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu dros y pum mlynedd diwethaf.

Mewn ychydig o ddangosyddion pwysig yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn fwy na'r gwahaniaeth mewn ysgolion tebyg.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg a'r dangosydd sy'n cynnwys y pynciau craidd wedi'u cyfuno yn is na'r cyfartaledd mewn ysgolion tebyg.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl o gyfnodau allweddol blaenorol.

Mae nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster wedi gostwng, ac yn 2012, roedd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda phob disgybl yn ennill cymhwyster cydnabyddedig. Mae canran y disgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed ac na chofnodwyd eu bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn well na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol mewn perthynas â'u gallu.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol ym mhob cyfnod allweddol o ran caffael y medrau a'r wybodaeth sydd eu hangen i symud ymlaen i'r cam dysgu nesaf. Mewn ychydig o wwersi, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o destunau newydd, ac yn datblygu medrau priodol. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gweithio'n ddiwyd i ddatblygu eu medrau llythrennedd. Maent yn gwrando'n astud ac yn gwneud cyfraniadau llafar da. Maent yn ysgrifennu i safon briodol. Gallant ddarllen ac ymdrin ag ystod eang o destunau yn effeithiol wrth ymchwilio i aseiniadau.

Fodd bynnag, mae diffygion pwysig mewn llawer o wersi. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd araf. Er bod y lleiafrif ohonynt yn gwrando'n astud, cyfyngedig yw eu hatebion llafar, ac nid ydynt yn dangos rhuglder na hyder, yn enwedig pan roddir her annigonol iddynt. Mae medrau darllen disgyblion, yn enwedig bechgyn, yn aml yn wan.

Mewn gwersi eraill, mae medrau llawysgrifen disgyblion o bob gallu, ond bechgyn yn arbennig, yn wael, mae eu medrau cyflwyno yn wan ac fe gânt anawsterau mewn sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae eu dealltwriaeth o dermau technegol yn aml yn ansicr. Yn aml, mae ganddynt gofnod anghyflawn ac anhrefnus a dealltwriaeth gyfyngedig o'u gwaith.

Mewn ychydig o achosion, ni all disgyblion ddeall y dasg taflen waith yn llawn oherwydd eu strategaethau darllen cyfyngedig ac ni allant ateb aseiniadau yn llwyddiannus. Mewn gwersi eraill, mae disgyblion yn ymgymryd â thasgau ailadroddus, nad ydynt yn heriol, ac maent yn gwneud cynnydd araf iawn. Mae lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd anfoddhaol mewn dysgu oherwydd presenoldeb gwael neu ymddygiad aflonyddgar disgyblion eraill. Yn y dosbarthiadau hyn, caiff disgyblion anhawster yn cwblhau eu gwaith ac maent yn crwydro oddi wrth y dasg yn rhy hawdd ac yn dangos medrau llythrennedd gwael.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad wedi dirywio dros dair blynedd ac yn 2012 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae llawer o ddisgyblion yn dilyn cymhwyster mewn Cymraeg ail iaith ac mae'r mwyafrif ohonynt yn ennill cymhwyster lefel 2. Mae nifer y disgyblion sy'n dilyn y cwrs llawn mewn Cymraeg ail iaith yn isel ac yn gostwng, er bod y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu.

**Lles: Anfoddhaol**

At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd ffyrdd iach o fyw a manteision ymarfer corff rheolaidd. Mae cyfraddau cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol yn foddhaol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o fanteision diet iach ac maent yn manteisio ar opsiynau bwyta'n iach yn y ffreutur yn briodol.

Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ymddwyn yn ddigon da mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Caiff eu hymddygiad effaith negyddol ar eu cynnydd eu hunain a chynnydd disgyblion eraill. Nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn dangos parch at eu hathrawon nac at eu cyfoedion. Ychydig iawn o ddiddordeb y mae'r disgyblion hyn yn ei ddangos yn eu gwaith, ac mae ganddynt agweddau negyddol at ddysgu.

Nid yw rhai disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac nid yw'r ysgol yn delio'n effeithiol â bwlio. Mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yn uchel. Caiff hyn effaith negyddol ar y cynnydd a wna'r disgyblion hyn a disgyblion eraill.

Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi a chyfnodau cofrestru yn brydlon. Mae cyfraddau presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf wedi gwella rhywfaint, ond roedd cyfraddau presenoldeb mewn lleiafrif o wersi yn ystod wythnos yr arolygiad yn wael. Nid yw strategaethau'r ysgol i wella presenoldeb i lefel gyson uchel wedi bod yn ddigon effeithiol.

Mae'r cyngor ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynegi eu safbwyntiau am waith yr ysgol a chymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir, fel dechrau gwneud gwelliannau i doiledau. Fodd bynnag, ni chaiff y cyngor ysgol ddigon o gyfleoedd i ddylanwadu ar faterion fel y cwricwlwm neu agweddau ar addysgu a dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn cymryd rhan mewn profiad gwaith defnyddiol ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd. Mae disgyblion hŷn yn gweithredu fel mentoriaid cyfoedion ar gyfer disgyblion iau, ond mae ansawdd ac effaith y cymorth hwn yn gyfyngedig.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n bodloni gofynion statudol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Yng nghyfnod allweddol 4, mae ystod eang a chytbwys o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol.

Cynigir llawer o'r cyrsiau a'r gweithgareddau hyn trwy gydweithio helaeth â darparwyr eraill. Fodd bynnag, mae lleiafrif od disgyblion yn colli tuag 20 munud o amser gwersi yn yr ysgol bob wythnos er mwyn eu galluogi i deithio i goleg lleol. Caiff hyn effaith negyddol ar barhad yr addysgu a'r dysgu. Mae'r ysgol yn trefnu sesiynau dal i fyny i'r disgyblion er mwyn gwneud i fyny am golli'r amser yma ond prin yw effaith y sesiynau ac mae gormod o fylchau yn llyfrau'r disgyblion.

Nid yw'r ysgol wedi datblygu na chydlynu cysylltiadau ar draws y cwricwlwm yn ddigonol i sicrhau dilyniant priodol o ran medrau llythrennedd disgyblion. Mae darpariaeth llythrennedd ysgol gyfan yn gyfyngedig, ac ni chaiff disgyblion eu hannog i ddatblygu ac ymestyn eu medrau darllen ac ysgrifennu mewn llawer o feysydd y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o raglenni cymorth ymyrraeth i fodloni anghenion disgyblion. Darperir rhaglen ddefnyddiol o weithgareddau y tu allan i'r ysgol ar gyfer

disgyblion mwy abl, sy'n gwella eu profiadau dysgu. Mae'r ysgol wedi cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar gyfer y disgyblion hyn yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth mewn gwersi ar gyfer disgyblion mwy abl yn wan ar y cyfan.

Mae rhaglen allgyrsiol amrywiol sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i wella profiadau dysgu disgyblion. Ymhlith y rhain, mae'r pwyllgor eco yn grŵp dethol o ddisgyblion sydd wedi gweithio'n llwyddiannus i ennill y Faner Werdd ar ddau achlysur am fentrau amgylcheddol yn yr ysgol a'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo addysg ar gyfer materion datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn llwyddiannus trwy gylchlythyr yr ysgol ac mae wedi trefnu archwiliad ysgol masnach deg a diwrnodau datblygiad cynaliadwy blynyddol a diwrnodau rhyngwladol i godi ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol.

Caiff disgyblion gyfleoedd priodol i ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru o fewn y cwricwlwm, gan gynnwys cyfranogi mewn Eisteddfod flynyddol. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd araf yn datblygu'r dimensiwn Cymreig, yn enwedig o ran datblygu medrau Cymraeg disgyblion.

**Addysgu: Anfoddhaol**

Dim ond mewn ychydig o wersi y mae'r addysgu yn dda neu'n well. Yn y gwersi hyn, mae gweithgareddau yn adeiladu'n dda ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau heriol ac ysgogol sy'n cymell disgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae athrawon yn rhoi amser meddwl buddiol i ddisgyblion, sy'n eu galluogi i ddatblygu atebion llafar ac ysgrifenedig manwl. Mae cwestiynau penagored yn procio ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion yn dda. Mae athrawon yn darparu ystod o gyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion weithio yn annibynnol ac mewn grwpiau.

Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, nid yw'r addysgu'n ddigon da ac mae'n cynnwys llawer o ddiffygion. Mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel. Nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol. Nid yw athrawon yn holi disgyblion yn ddigon effeithiol i ymestyn eu dysgu a'u dealltwriaeth ac nid yw gweithgareddau dysgu a gynlluniwyd yn herio disgyblion yn ddigonol. Nid yw gweithgareddau yn bodloni anghenion pob disgybl, yn enwedig y rhai mwyaf abl a lleiaf abl. Mae rhediad y dysgu yn araf, y strategaethau addysgu yn ailadroddus ac nid yw medrau disgyblion, yn enwedig medrau llythrennedd, a gwybodaeth bynciol, wedi eu datblygu digon. Mewn lleiafrif sylweddol o wersi, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad yn ddigon da ac mae hyn yn cyfyngu cynnydd disgyblion hefyd.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae gormod o anghysondeb yn ansawdd a thrylwyredd y marcio a'r adborth ysgrifenedig rhwng adrannau ac oddi mewn iddynt. Mewn gormod o achosion, nid yw'r marcio yn rhoi digon o gyngor defnyddiol i ddisgyblion ynglŷn â sut i wella safon eu gwaith. Pan fydd yr athro'n rhoi arweiniad priodol, anaml y bydd disgyblion yn ymateb i'r sylwadau a wneir neu'n cywiro eu gwaith.

Caiff cynnydd disgyblion ei fonitro'n briodol ar draws yr ysgol ar lefel unigolyn, grŵp a phwnc trwy system olrhain ysgol-gyfan gymharol newydd. Mae hyn yn system

soffistigedig gyda photensial da, ond nid yw wedi cael effaith lawn ar gynnal safonau eto. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ddata asesu i gynllunio a thargedu camau. Mewn ychydig iawn o wersi, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae'r ysgol yn rhoi adroddiadau defnyddiol i rieni. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau yn nodi cryfderau'n glir ac yn gosod targedau priodol ar gyfer gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae'r cwricwlwm, sesiynau tiwtorial a'r rhaglen gwasanaethau yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn briodol. Mae siaradwyr o amrywiaeth o sefydliadau, fel yr heddlu a'r gwasanaeth tân, yn helpu i godi ymwybyddiaeth disgyblion am faterion diogelwch personol. Mae'r rhaglen addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion am destunau fel lles emosiynol, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a diogelwch ar y rhyngrwyd. Er bod y rhaglen hon yn helpu disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw, mae'n llai llwyddiannus yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwael lleiafrif o ddisgyblion.

Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gyda lefelau priodol o gyfranogiad, yn cyfrannu'n addas at ddatblygiad diwylliannol a chymdeithasol disgyblion a'u datblygiad mewn chwaraeon. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion penodol disgyblion unigol. Mae'r ysgol yn rhoi cyngor cadarn i ddisgyblion am ddewis opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 ac mae'n gwneud addasiadau, lle bo modd, i fodloni dewisiadau disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi cymorth priodol ar y cyfan i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn cael cyngor gan wasanaethau ac asiantaethau arbenigol lle bydd angen. Gall y disgyblion hyn fanteisio ar holl feysydd y cwricwlwm a chymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, ni chaiff targedau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu gweddu'n ddigon da i ofynion penodol y disgyblion unigol. Mae cydlynu annigonol rhwng anghenion dysgu ychwanegol ac athrawon prif ffrwd i sicrhau cymorth mwy effeithiol ar gyfer disgyblion unigol.

Mae'r ysgol wedi paratoi deunyddiau addas i gefnogi datblygiad disgyblion unigol mewn darllen. Mae ychydig o ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 yn gweithredu fel mentoriaid darllen ac yn rhoi cyfleoedd ychwanegol gwerthfawr i ddisgyblion iau wella eu darllen. Mae rhaglenni addas ar gyfer tynnu disgyblion allan o wersi yn rhoi cymorth priodol i ddisgyblion sydd â'r medrau llythrennedd gwannaf. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gwneud digon i helpu disgyblion eraill a fyddai'n elwa ar gymorth ychwanegol i wella eu medrau llythrennedd.

Mae darpariaeth 'Tegfan' ar gyfer tynnu disgyblion allan o wersi yn cynnwys nifer o swyddogaethau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion unigol. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes strategaeth drosfwaol glir ar gyfer rheoli'r ystafell hon yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y defnydd a wneir ohoni.

Mae gan yr ysgol polisïau addas ar gyfer diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion pob amser yn cael eu cymhwyso'n briodol yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod ychydig o ddisgyblion ddim yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol oherwydd ymddygiad gwael disgyblion eraill. Nid yw'r ysgol yn cadw cofnod o achosion o fwlio ac ni all ddangos p'un a yw strategaethau i fynd i'r afael â bwlio yn effeithiol. O ganlyniad, nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion yn llawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Anfoddhaol**

Nid yw'r amgylchedd dysgu yn ddigon da ar y cyfan. Mae hyn yn rhannol oherwydd disgwyliadau isel ychydig o'r staff, ac anawsterau gydag agweddau ar yr adeiladau. Nod yr ysgol yw hyrwyddo ethos cynhwysol a chadarnhaol, ac mae polisïau priodol ar waith i arwain gwaith yn y maes hwn. Caiff cyfraniad nifer fawr o ddisgyblion o ystod eang o wahanol gefndiroedd diwylliannol ei ddathlu gan yr ysgol. Fodd bynnag, mae enghreifftiau lle mae disgwyliadau is ychydig o aelodau o staff o grwpiau penodol o ddisgyblion yn cael dylanwad negyddol ar effeithiolrwydd y gwaith hwn.

Caiff ystafelloedd dosbarth eu cynnal a chadw'n briodol ar y cyfan, ac maent wedi cael eu haddurno'n ddeniadol i ddarparu amgylchedd ysgogol. Fodd bynnag, mewn dau o'r blociau addysgu, ni ellir rheoli'r system wresogi yn effeithiol, ac fe gaiff hyn effaith niweidiol ar addysgu a dysgu. Mae'r toiledau yn ddigonol, ond mae llawer ohonynt wedi eu cloi, ac fe gaiff mynediad gan ddisgyblion ei gyfyngu ar adegau penodol o'r diwrnod ysgol.

Mae gan yr ysgol adnoddau priodol i fodloni'r cwricwlwm. Mae'r llyfrgell yn ddeniadol gydag adnoddau sy'n datblygu. Fe gaiff tir eang yr ysgol ei ddefnyddio a'i gynnal yn dda. Mae cyfleusterau chwaraeon helaeth, ac mae ansawdd yn dda ac yn rhoi ystod o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol defnyddiol i ddisgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae gwendidau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob lefel. At ei gilydd, nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi cael digon o effaith ar wella meysydd pwysig fel safonau, addysgu a dysgu ac ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr wedi adolygu a diwygio'r datganiad o weledigaeth a blaenoriaethau'r ysgol, trwy ymgynghori â staff a llywodraethwyr. Defnyddiant ddata i ddehongli perfformiad, gosod targedau a monitro perfformiad yn eu herbyn. Mae'r broses hon yn briodol ar y cyfan, er nad yw'r targedau'n ddigon heriol a disgwyliadau'n rhy isel mewn ychydig o achosion.

Ar lefel uwch arweinyddiaeth, mae diffyg eglurder mewn rolau a chyfrifoldebau ar gyfer arwain ar ddatblygiadau pwysig ar draws yr ysgol gyfan mewn addysgu a dysgu, ac o ran dwyn staff i gyfrif. Er bod yr ysgol wedi cymryd camau i godi ymwybyddiaeth am y ffactorau sy'n cyfrannu at welliannau mewn addysgu a dysgu, nid yw effaith y fenter hon wedi cael ei harfarnu'n ddigonol eto. Mae diffyg cydlyniad

o fewn a rhwng adrannau o ran rhoi polisi ac arfer ar waith yn y maes hwn. Mae anghysondebau yn y ffordd y caiff gwaith ei osod ar gyfer gwahanol lefelau gallu disgyblion ac yn y ffyrdd y caiff profiadau dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth eu rheoli.

Mae uwch arweinwyr yn gysylltiedig ag adrannau pwnc unigol, ond mae gormod o anghysondebau yn y ffyrdd y maent yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau fel datblygiadau mewn llythrennedd ar draws meysydd pwnc. Er y bu gwelliannau mewn deilliannau yng nghyfnod allweddol 4 yn 2012, mae cyflymder y gwelliant a chynhaliaeth hwn yn araf. Ar draws y ddau gyfnod allweddol, nid yw arweinwyr a rheolwyr wedi llwyddo i sicrhau bod ansawdd addysgu a dysgu yn ddigon uchel. Nid ydynt ychwaith wedi llwyddo i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ymddygiad gwael disgyblion a rheolaeth ddosbarth wael.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r broses yn ddigon trylwyr i ysgogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu.

Mae systemau atebolrwydd yn wan ar draws yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at amrywiad eang yn ansawdd arweinyddiaeth adrannol o fewn meysydd pynciau craidd a'r cwricwlwm ehangach.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn ystyried deddfwriaeth ac arweiniad perthnasol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth foddhaol o'u rolau ac maent yn trefnu eu gwaith trwy ystod briodol o bwyllgorau. Mae llywodraethwyr yn gysylltiedig ag adrannau pwnc. Cânt eu hysbysu'n briodol am berfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o angen yr ysgol i wella perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, perfformiad bechgyn a llythrennedd ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ddwyn arweinwyr a rheolwyr i gyfrif. Er bod llywodraethwyr yn monitro gwariant yn briodol, mae eu rhan mewn gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio datblygiad yn llai datblygedig.

Mae strategaethau a ddilynir gan arweinwyr a rheolwyr i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol yn anghyson. Gwnaed cynnydd da wrth leihau cyfran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb unrhyw gymhwyster. Mae trefniadau priodol ar gyfer pontio. Fodd bynnag, mae'r camau a gymerir i ddatblygu medrau, llythrennedd ac atal effaith anfantais ar ddeilliannau yn llai effeithiol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae proses hunanarfarnu'r ysgol yn seiliedig ar amserlen briodol o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys arsylwadau gwersi a gynhelir gan uwch arweinwyr a rheolwyr canol, dadansoddi data, adolygiadau o lyfrau nodiadau disgyblion, a safbwyntiau disgyblion. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl ac addysgiadol ac yn rhoi golwg gynhwysfawr ar ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol, sy'n rhy ddisgrifiadol ar adegau. Er bod yr adroddiad hunanarfarnu yn cofnodi gwelliannau a wnaed gan yr ysgol, mae'n aml yn dweud rhy ychydig am ddiffygion. Mae arfarniad ysgol gyfan o addysgu, dysgu ac asesu yn rhy hael, ac ni chaiff addysgu a dysgu gwan eu nodi'n ddigonol.

Ar draws yr ysgol, mae hunanarfarniadau a chynlluniau gwella adrannol yn anghyson o ran eu hansawdd a'u cynnwys. Yn yr achosion gorau, maent yn nodi meysydd i'w gwella yn glir. Fodd bynnag, mae gormod ohonynt heb eu cwblhau'n llawn, ac nid ydynt yn rhoi digon o sylw i flaenoriaethau gwella.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi saith blaenoriaeth allweddol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, bu'r ysgol yn rhy araf yn rhoi'r cynllun ar waith, ac nid yw hyn wedi arwain at welliannau arwyddocaol yn ansawdd yr addysgu a chyflawni gwelliant cynaliadwy mewn safonau yng nghyfnod allweddol 4. At ei gilydd, nid yw'r cynllunio ar gyfer gwella yn canolbwyntio digon ar nodi a defnyddio strategaethau effeithiol i wella'r meysydd pwysig hyn.

Mae mwyafrif yr arweinwyr canol yn deall perfformiad eu meysydd pwnc yn briodol. Fodd bynnag, mae gormod o anghysondeb o ran pa mor aml a pha mor drylwyr y mae arweinwyr canol yn arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a hyrwyddo gwelliant.

Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn asesu ansawdd gwaith ysgrifenedig disgyblion. Fodd bynnag, maent yn llunio adroddiadau rhy gadarnhaol ar ansawdd marcio, adborth ac asesu. O ganlyniad, nid yw llawer o'r adroddiadau hyn yn nodi meysydd pwnc i'w gwella wrth addysgu ac mewn asesu cynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithgorau a strategaethau defnyddiol i ganolbwyntio ar faterion penodol, ond megis dechrau y mae eu gwaith a phrin fu'r effaith ar arfer ystafell ddosbarth. At ei gilydd, nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn mynd i'r afael â diffygion pwysig, yn enwedig mewn addysgu, dysgu a gwella ymddygiad disgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael ag argymhellion allweddol o'r arolygiad blaenorol. Yn benodol, gwnaed cynnydd araf wrth fynd i'r afael â'r argymhellion ynglŷn â thrylwyredd a chysondeb hunanarfarnu a gwella cyflawniad yng nghyfnod allweddol 4.

### Gweithio mewn partneriaeth: Digonol

Mae'r ysgol wedi datblygu trefniadau partneriaeth da gydag ystod eang o sefydliadau a darparwyr eraill. Mae'r ysgol wedi gweithio'n arbennig o dda gyda phartneriaid yn y rhwydwaith 14-19 lleol. Maent wedi datblygu partneriaethau hynod effeithiol gyda cholegau addysg bellach (AB) lleol. Mae'r cysylltiadau hyn wedi arwain at welliant yn ystod y cyrsiau a gynigir yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnig ystod gynhwysfawr o brofiadau i ddisgyblion, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol sy'n ehangu'r opsiynau sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, mae trefniadau cludiant gyda'r coleg lleol yn golygu bod disgyblion yn colli amser cwricwlwm hanfodol yn yr ysgol.

Mae partneriaethau a pherthnasoedd gweithio priodol gydag ysgolion cynradd sy'n bwydo. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda ar y cyd â'r ysgolion sy'n ei bwydo i ddarparu ystod ddefnyddiol o weithgareddau a digwyddiadau addysgiadol i wneud yn siŵr bod parhad a dilyniant priodol o ysgolion cynradd. Maent yn datblygu trefniadau effeithiol gyda'r ysgolion cynradd hyn. Mae ffocws ar nodi anghenion disgyblion unigol ac maent yn trefnu cymorth priodol yn ystod eu cyfnod pontio i'r ysgol, er bod cydweithio i wella llythrennedd a rhifedd disgyblion yn wannach.

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod o bartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau cymorth, rhieni a grwpiau cymunedol. Mae'r rhain yn rhoi cymorth buddiol i ddisgyblion sy'n agored i niwed yn y rhan fwyaf o achosion.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae gan yr ysgol lefelau addas o staff cymwys a phrofiadol. Mae disgrifiadau swydd yn briodol ar y cyfan, a defnyddir staff yn briodol. Mae staff yn cefnogi disgyblion â nam ar y clyw yn effeithiol. Mae disgyblion yn elwa'n gyffredinol ar ystod briodol o werslyfrau ac offer ystafell ddosbarth. Mewn rhai meysydd cyfrifoldeb pwysig ysgol-gyfan, lle mae agweddau ar y gwaith mewn rhai achosion yn cael eu rhannu gan hyd at dri athro gwahanol, mae diffyg eglurder a llinellau atebolrwydd clir.

Mae trefniadau rheoli perfformiad a darpariaeth ar gyfer datblygiad staff yn swyddogaethol. Fodd bynnag, ni fu'r ysgol yn ddigon effeithiol o ran dileu'r diffygion mewn addysgu.

Caiff y gyllideb ei rheoli'n dda. Mae'r ysgol yn mynd ati i gael grantiau a chyllid ychwanegol gan gyrff allanol yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi arfarnu effaith fanwl y defnydd a wneir o'r cyllid hwn yn ddigon da i lywio cynllunio yn y dyfodol a chodi safonau disgyblion.

Gan ystyried y safonau anfoddhaol, mae'r ysgol yn darparu gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, er y bu gostyngiad yn 2011. Er y bu gwelliant, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn ystod tair o'r pedair blynedd diwethaf wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Bu ymhlith y 50% isaf o ysgolion am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad mewn Saesneg wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, er y bu gostyngiad yn 2011. Yn 2012, roedd perfformiad ar lefel 5 neu'n uwch yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a bu ymhlith y 25% isaf o ysgolion am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 6 neu'n uwch wedi gostwng dros dair blynedd ac mae islaw cyfartaleddau'r teulu yn ystod y pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad mewn mathemateg wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, er y bu gostyngiad yn 2011. Yn 2012, roedd perfformiad ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu ac ymysg y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Mae perfformiad yn lefel 6 neu'n uwch wedi amrywio ac islaw cyfataledd y teulu yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad ar lefel 7 neu'n uwch wedi bod yn gryfach ac yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion yn ystod dwy o'r pedair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2012, roedd perfformiad yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Bu'r ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran hawlio prydau ysgol am ddim am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch wedi gwella ychydig dros y tair blynedd ond yn 2012, roedd yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad yn y pynciau nad ydynt yn rhai craidd yn lefel 5neu'n uwch wedi dangos tuedd o welliant dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2012, roedd pob pwnc nad oedd yn bwnc craidd, heblaw TGCh, yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 3 yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ac mae bron hanner cyfradd y disgyblion eraill nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn y dangosydd sy'n cynnwys y pynciau craidd wedi'u cyfuno mae mwy o wahaniaeth rhwng perfformiad merched a bechgyn, gyda bechgyn yn tanberfformio, na bechgyn mewn ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r duedd mewn perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf a chafwyd gostyngiad yn 2011. Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer y cymharydd hwn, ac yn agos at gyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Mae'r duedd mewn perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd hefyd

yn dangos perfformiad amrywiol dros 3 blynedd, a chafwyd gostyngiad nodedig yn 2011. Yn 2012, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer y dangosydd hwn.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn dangos perfformiad amrywiol dros dair blynedd ac mae ychydig uwchlaw cyfartaledd y teulu ar gyfer 2012. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 dros dair blynedd yn dangos tuedd o welliant, ac yn 2012, roedd uwchlaw cyfartaledd y teulu. Yn 2012, roedd perfformiad yn y dangosyddion yma wedi gosod yr ysgol ymysg y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Yn 2012, roedd perfformiad yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn unigol wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae perfformiad Saesneg dros y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu.

Mewn ychydig o ddangosyddion pwysig, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn llawer mwy nag ydyw mewn ysgolion tebyg yng nghyfnod allweddol 4.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol mewn perthynas â'u gallu.

Mae canran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster wedi gostwng, ac yn 2012, roedd yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol gyda phob disgybl yn ennill cymhwyster cydnabyddedig.

Mae canran y disgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed ac na chofnodwyd eu bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn well na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 244 o ddysgwyr, a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran. Er bod dysgwyr wedi ymateb yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn i lawer o gwestiynau, nid oedd ychydig o'r ymatebion yr un mor gadarnhaol â'r rhai gan ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd eraill.

Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae llawer ohonynt yn nodi bod rhywun y gallant droi ato os oes ganddynt bryderon. Mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif sylweddol ohonynt yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda fel y gallant fwrw ymlaen â'u gwaith, sy'n gyfran uwch na'r hyn a welir mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn credu eu bod yn gwneud yn dda, bod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer. Dywed llawer ohonynt fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith, ac mae llawer o ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 hefyd yn dweud y cawsant gyngor da wrth ddewis eu cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth. Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr bod digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd, ac mae llawer ohonynt yn nodi bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach.

Mae llawer o ddysgwyr yn cadarnhau bod aelodau o'r staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu. Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr fod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafodd Estyn 60 o ymatebion i'r holiadur i rieni.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Dywed y rhan fwyaf ohonynt fod eu plant yn ddiogel ac yn hoffi'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn nodi i'w plant gael cymorth i ymgynefino'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Dywed y rhan fwyaf ohonynt hefyd fod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach. Mae llawer ohonynt yn credu bod ystod dda o weithgareddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol i drafod materion am addysg a lles eu plentyn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf ohonynt o'r farn fod disgwyliadau staff a'r addysgu yn dda. Teimla llawer o rieni fod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol lle bydd angen, a bod llawer o staff yn trin eu plant yn deg ac yn eu parchu. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn credu bod yr ysgol yn helpu eu plant i fod yn fwy aeddfed ac mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn paratoi eu plant yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu'r coleg a gwaith.

Mae llawer o rieni yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda ynglŷn â chynnydd eu plant a dywedant fod gwaith cartref yn atgyfnerthu'r dysgu. Nid yw lleiafrif o rieni yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Edward Harris | Arolygydd Tîm |
| Marc Belli | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims | Arolygydd Tîm |
| Julie Price | Arolygydd Lleyg |
| Rebecca Collins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nic Harrison | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |